**EPT-10-00 (p 3)_w**

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A TRAFNIDIAETH**

**SWYDDOGAETH ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD**

**O RAN RHEOLI SAFLE TIRLENWI NANT-Y-GWYDDON**

## 1. Asiantaeth yr Amgylchedd

1.1 Corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yw Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Ar 1af Ebrill 1996, derbyniodd yr Asiantaeth swyddogaethau rheoleiddio gwastraff gan y cyrff a'i rhagflaenodd. Fe'i sefydlwyd i warchod a gwella'r amgylchedd gan gydymffurfio ag ymrwymiad cyffredinol y llywodraeth i ddatblygu cynaliadwy. Caiff nodau ac amcanion y llywodraeth ar gyfer yr Asiantaeth eu nodi yn y Datganiad Rheoli. Mae'r Asiantaeth yn gyfrifol am reoleiddio a rheoli gwastraff gan gynnwys cynhyrchu, cludo a gwaredu.

## 2. Hanes

2.1 Cyngor Bwrdeistref y Rhondda oedd yn rheoli safle Tirlenwi Nant-y-Gwyddon o 1988 tan 1995. Roeddent hefyd yn gyfrifol am reoleiddio'r safle a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r amodau gweithredu yn unol â Deddf Rheoli Llygredd 1974. Nid oedd angen trwydded ar safleoedd dan reolaeth awdurdodau lleol, ond yn hytrach roeddent dan reolaeth penderfyniadau a gymeradwyid gan yr Awdurdod. Cafodd rheolaeth y safle ei throsglwyddo i gwmni Rhondda Waste Disposal Cyfyngedig (RWDL) ym 1995, Cwmni Gwaredu Gwastraff Awdurdod Lleol (LAWDC). Rhoddodd y Cyngor drwydded rheoli gwastraff dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990 i RWDL ac roedd yn gyfrifol am reoleiddio'r safle hyd nes cafodd y swyddogaeth ei throsglwyddo i Asiantaeth yr Amgylchedd ym mis Ebrill 1996.

## 3. Fframwaith cyfreithiol gwaith Asiantaeth yr Amgylchedd

3.1 Asiantaeth yr Amgylchedd yw un o'r awdurdodau cymwys yn y DU ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff y Gymuned Ewropeaidd drwy ddeddfwriaeth y DU. Mae pedwar corff rheoleiddio sy'n gyfrifol am reoli safleoedd tirlenwi:

(i) Asiantaeth yr Amgylchedd dan ddeddfwriaeth rheoli llygredd;

i. yr Awdurdod Lleol dan ddeddfwriaeth gynllunio.

ii. yr Awdurdod Lleol ar gyfer iechyd yr amgylchedd a rheoli niwsans

iii. y Pwyllgor Gwaith Iechyd a Diogelwch ar gyfer deddfwriaeth iechyd a diogelwch

3.2 Y prif ddull sydd gan yr Asiantaeth i ddiogelu'r amgylchedd yw trwy roi trwydded rheoli gwastraff. Rhaid i bwy bynnag sy'n cadw safle tirlenwi trwyddedig gydymffurfio ag amodau'r drwydded. Mae'n drosedd torri amodau trwydded. Rhaid i'r amodau sydd ynghlwm wrth y drwydded fod yn angenrheidiol, yn rhai y gellir eu gorfodi, yn ddiamwys ac yn gynhwysfawr, h.y. bod modd eu cyfiawnhau. Caiff deilydd trwydded rheoli gwastraff herio unrhyw addasiad i'r amodau a orfodir drwy broses apêl.

3.3 Mae gan yr Asiantaeth ddyletswydd i sicrhau bod safle tirlenwi Nant-y-Gwyddon yn cael ei weithredu'n unol ag amodau'r drwydded heb achosi:

- llygredd i'r amgylchedd,
- niwed i iechyd pobl neu
- niwed difrifol i fwynderau'r ardal leol.

3.4 Mae gan yr Asiantaeth ddyletswydd i addasu trwydded rheoli gwastraff er mwyn atal llygru'r amgylchedd neu niwed i iechyd neu niwed difrifol i fwynderau lleol ac i adolygu trwyddedau a all lygru dŵr daear o ganlyniad i rai sylweddau rhestredig.

3.5 Mae gan yr Asiantaeth y pwerau canlynol i'w galluogi i gyflawni ei chyfrifoldebau:

(i) Gofyniad i adolygu a diweddaru trwyddedau o bryd i'w gilydd

(ii) Pwerau goruchwylio megis archwilio a monitro

(iii) Y gallu i gyflwyno rhybuddion yn gofyn iddynt gydymffurfio ag amodau'r drwydded

(iv) Mynd ar drywydd erlyniadau

(v) Rheolaeth dros drosglwyddo trwyddedau

(vi) Dirymu neu atal trwyddedau dros dro

(vii) Rheolaeth dros ildio trwyddedau

3.6 Mae'r Ysgrifenyddion Gwladol wedi cyhoeddi canllawiau statudol ac anstatudol i Awdurdodau Lleol yn y gorffennol ac i'r Asiantaeth erbyn hyn ynghylch rheoleiddio safleoedd tirlenwi sy'n cynnwys gwybodaeth megis pa mor aml y cynhelir archwiliadau a nodau ac amcanion trwyddedu.

3.7 Etifeddodd yr Asiantaeth sefyllfa lle’r oedd trwydded eisoes wedi'i chyhoeddi. Roedd rhaid i'r Asiantaeth ystyried addasu amodau'r drwydded i sicrhau nad oedd y broses gwaredu gwastraff yn Nant-y-Gwyddon yn mynd i arwain at lygru'r amgylchedd, niwed i iechyd pobl neu niwed difrifol i fwynderau'r ardal leol.

## 4. Yr hyn a wnaeth yr Asiantaeth

4.1 Ym mis Mehefin 1996, dechreuodd yr Asiantaeth dderbyn cwynion ynghylch yr aroglau a ddeuai o'r safle. Aeth yr Asiantaeth ati'n syth i archwilio beth allai fod yn achosi'r arogleuon hyn a chasglwyd mai'r ffynhonnell fwyaf tebygol oedd y nwy tirlenwi a gynhyrchid gan y safle, yn enwedig yr aroglau⎣ y drwg. Credid mai achos yr aroglau hwn oedd y nwy hydrogen sylffid a oedd yn cael ei ryddhau pan oedd gwastraff trwchus ar ôl hidlo calsiwm sylffid yn ymddatod.

4.2 Mae'r Asiantaeth wedi ymdrechu'n galed i ddefnyddio'i phwerau ar gyfer datrys y problemau amgylcheddol a achosir gan y safle, er budd y cymunedau cyfagos.

4.3 I grynhoi, dyma'r pethau allweddol a wnaeth yr Asiantaeth :

(i) Addasu'r drwydded yn syth yn unol â'i dyletswydd i atal llygredd, niwed i iechyd pobl neu niwed difrifol i fwynderau'r ardal leol. Gorchmynnwyd y cwmni i adolygu'r systemau nwy tirlenwi a thrwytholchi.

(ii) Comisiynwyd ymgynghorwyr arbenigol, Entec Cyf i archwilio'r effeithiau ar yr amgylchedd a pharatoi adroddiad amdanynt.

(iii) Cael gorchymyn Uchel Lys ym mis Gorffennaf 1997 yn dilyn penderfyniad RWDL i dynnu gweithwyr o'r safle. Roedd y gorchymyn hwn yn gorfodi'r cwmni i ddychwelyd i'r safle a chadw at systemau rheoli llygredd hanfodol.

(iv) Addasu'r drwydded ymhellach fel bo rhaid gwneud gwaith gwella helaeth yn y safle i fynd i'r afael â phroblemau nwy tirlenwi a thrwytholchi o fewn y cyfnodau a bennwyd gan yr Asiantaeth

(v) Dechreuodd yr Asiantaeth erlyn RWDL ym mis Ionawr 1999 ar ôl i'r cwmni fethu â chwblhau'r holl waith yn y cyfnodau penodol a bennwyd gan yr Asiantaeth. Ym mis Mawrth 2000 cafodd y cwmni ddirwy o £20,000 a gorfodwyd iddynt dalu £11360 o gostau'r erlyniad mewn achos yn Llys Ynadon Llwynypia.

(vi) Camodd yr Asiantaeth i mewn ym mis Ionawr 1999 mewn achos methdaliad a gyflwynwyd gan y cwmni yn yr Uchel Lys. Y rheswm am hyn oedd bod yr Asiantaeth yn poeni llawer am yr effaith y gallai achos o'r fath gael ar gwblhau'r gwaith oedd ar ôl yn y safle ynghyd â gallu'r Asiantaeth i barhau gyda'i herlyniad. Roedd yn rhaid i'r Asiantaeth ennill dyfarniad yn y Llys Apêl i gyflawni'r erlyniad llwyddiannus.

(vii) Cytunwyd i drosglwyddo trwydded y safle ym mis Medi 1999 i LAWDC newydd Amgen Rhondda Cyf dan berchnogaeth Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf (RCT).

**5. <u>Y sefyllfa bresennol</u>**

5.1 Mae'r Asiantaeth yn parhau i reoleiddio'r safle'n gadarn i sicrhau bod Amgen Rhondda Cyf yn cwblhau'r holl waith y cytunwyd arno, gan gynnwys monitro ansawdd yr aer. Mae'r cwmni hefyd yn ymgynghori â'r Asiantaeth ac RCT er mwyn datblygu protocol sy'n rhoi gwybodaeth am ansawdd yr aer i bob grwp sydd â diddordeb yn y maes am effeithiolrwydd rheoli'r safle.

5.2 Ar hyn o bryd mae'r Asiantaeth yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o amodau trwydded y safle i sicrhau bod modd eu gweithredu'n rhwydd ac yn unol â pholisi cyfredol yr Asiantaeth.

5.3 Mae'r Asiantaeth hefyd wedi cynnig cymorth i RCT er mwyn ei helpu i ddatblygu ei strategaeth wastraff i'r dyfodol er mwyn cyflawni gofynion Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE, yn enwedig yr angen i ostwng yn sylweddol faint o wastraff bioddiraddadwy a anfonir i safleoedd tirlenwi.

5.4 Drwy gydol y cyfnod hwn, mae'r Asiantaeth wedi gweithio'n galed i ateb ceisiadau am wybodaeth a chwynion gan drigolion lleol, y trigolion sydd yn erbyn tomen Nant-y-Gwyddon (RANT), cynghorwyr lleol, ACau, ASau, ASEau. Mae hyn wedi cynnwys sawl sesiwn briffio, cyfarfod cyhoeddus a darparu gwybodaeth drwy lythyrau a thrwy safle'r Asiantaeth ar y we.

**Roger Thomas**

**Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**